GWASANAETHAU GWIRFODDOL MORGANNWG (GVS)

# ADRODDIAD EFFAITH

2022 - 2023










*ein cyflawniadau*

# CYFLWYNIAD I WASANAETHAU GWIRFODDOL MORGANNWG (GVS)

**Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg (GVS) yw'r Cyngor Gwirfoddol Sirol (CVC) ar gyfer Bro Morgannwg. GVS yw'r corff ymbarél ar gyfer Trydydd Sector Bro Morgannwg a'n rôl yw cefnogi, datblygu a chynrychioli mudiadau'r Trydydd Sector a hyrwyddo gwirfoddoli ym Mro Morgannwg.**

**Mae gennym aelodaeth lewyrchus o ryw 770 o sefydliadau cymunedol sy'n weithgar ym Mro Morgannwg. Rydym yn helpu i wella ansawdd bywyd pobl a chymunedau drwy gefnogi gwirfoddolwyr, cyfleoedd gwirfoddoli a grwpiau gwirfoddol.**

**Mae cymunedau ffyniannus a chydlynol yn gofyn am ymgysylltu gweithredol a chyfranogiad pobl leol. Mae rôl gynyddol i'r Trydydd Sector o ran darparu gwasanaethau ac mae ganddynt rôl amhrisiadwy fel partneriaid ac eiriolwyr dros gymunedau lleol. Mae ein gwasanaethau arbenigol yn helpu i ddarparu llwyfan ar gyfer Trydydd Sector bywiog a chadarn.**

**Ein Gweledigaeth yw Trydydd Sector gwerthfawr ac uchel ei barch, lle mae GVS yn gwasanaethu fel arweinydd dibynadwy, partner strategol effeithiol ac yn darparu model o arfer da i'r Sector.**

**Ein Cenhadaeth yw bod GVS yn anelu at rymuso pobl, ysbrydoli rhagoriaeth, a chryfhau cymunedau trwy ysgogi a datblygu gweithredu gwirfoddol.**








# RHAGAIR Y CADEIRYDD
# GAN GRAHAM BENFIELD OBE

**Trwy flwyddyn arall o newid a her gyda llawer o sefydliadau'r Trydydd Sector yn dal i deimlo effaith yr argyfwng costau byw, rwy'n credu y gallwn edrych yn ôl ar 2022-2023 gydag ymdeimlad o falchder a chyflawniad haeddiannol. Mae'r adroddiad hwn yn mynd ymhell y tu hwnt i ddisgrifiad o'n gweithgareddau ac yn canolbwyntio'n wirioneddol ar y canlyniadau a'r gwahaniaeth a wnawn. Mae'r gwahaniaeth hwn yn gynyddol bwysig wrth gefnogi a chynnal gweithredu gwirfoddol sy'n sail i fywyd cymunedol.**

**Nid yw ein gwasanaethau rhagorol yn hysbys i bawb o hyd ac maent yn cael croeso annisgwyl gan rai. Rydym yn parhau i ymwreiddio'n ddyfnach yng nghymunedau Bro Morgannwg i gyrraedd mwy o bobl. Mae ein Canolfannau Cymunedol ym Mhenarth (St Paul) a Llanilltud Fawr (CF61) yn ein helpu i wneud hynny.**

**Rydym hefyd wedi helpu llawer o fentrau i ddod i fodolaeth, sefydlu strwythurau, cyflawni statws elusennol lle bo hynny'n briodol, rhoi adnoddau i'w gweithgareddau a chyfleu eu neges trwy ein gwasanaethau hyfforddi, dylunio, cymorth a gwybodaeth. Mae ein prosiectau, Pantri Rhannu Bwyd, Prosiectau Garddio CF61 a St. Paul yn ein Canolfannau Cymunedol hefyd wedi tynnu sylw at rôl gwirfoddolwyr wrth ddarparu gwasanaethau.**

**Edrychaf ymlaen at y flwyddyn nesaf gyda hyder ac optimistiaeth oherwydd rwy'n gwybod ac yn gwerthfawrogi y bydd ein staff a'n hymddiriedolwyr brwdfrydig, dibynadwy a thalentog yn ymateb i unrhyw her yn llawn egni.**







# ADRODDIAD Y PRIF SWYDDOG GWEITHREDOL

## GAN RACHEL CONNOR

Pwrpas GVS yw annog a chefnogi datblygiad sector cymunedol a gwirfoddol ffyniannus yma ym Mro Morgannwg, fel bod ansawdd bywyd pobl yn gwella ac rydym yn galluogi eraill i weithredu i fynd i'r afael â materion ac anghydraddoldebau lleol.

I GVS, mae cyflwyno ein Hadroddiad Blynyddol a'n Hadroddiad Effaith nid yn unig yn ofyniad cyfreithiol ac yn darparu set o ddata ystadegol ac ariannol, ond mae hefyd yn ymwneud  â'r straeon bywyd go iawn sy'n bodoli y tu ôl i'r niferoedd, straeon sy'n ymwneud â gwirfoddolwyr, gwasanaeth defnyddwyr, grwpiau gwirfoddol a sefydliadau.

Mae'r adroddiad hwn yn dangos ein heffaith yn glir ac yn dangos sut yr ydym wedi llwyddo i ddarparu gwasanaethau hanfodol er gwaethaf yr heriau niferus sy'n ein hwynebu ni i gyd, gweithio'n wahanol, gwneud mwy a dod â gwerth ychwanegol i bopeth a wnawn ar gyfer partneriaid allweddol a'r gymuned ehangach.

Yn ystod y cyfnod heriol hwn rydym wedi canolbwyntio ar sicrhau lles unigolion a chymunedau ledled y Fro a galluogi mynediad at gefnogaeth a gwasanaethau hanfodol a ddarperir gan ein haelodaeth anhygoel.

Hoffwn ddiolch i'r tîm cyfan yn GVS, yn staff ac yn wirfoddolwyr; ein Hymddiriedolwyr am eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u cefnogaeth sydd wedi llunio cyfeiriad strategol GVS a holl sefydliadau'r Trydydd Sector ledled Bro Morgannwg sy'n gwneud bywyd yn well, i bob un ohonom.








# GWASANAETHAU GWYBODAETH AM GYLLID

Mae hon wedi bod yn flwyddyn o drawsnewid o ran cyllid i'r Sector, gan fod llawer o gyllidwyr wedi symud i ffwrdd o flaenoriaethu prosiectau sy'n gysylltiedig â COVID-19. Adlewyrchwyd y newid hwn yn yr ymholiadau a gawsom gan aelodau, ac yn ei dro y gefnogaeth yr ydym wedi bod yn ei darparu.

Mae elusennau, grwpiau gwirfoddol a mentrau cymdeithasol wedi cael eu hunain yng nghanol sefyllfa sydd wedi cael ei galw'n 'normal newydd', sydd wedi golygu dysgu am ac addasu i gyfres o heriau newydd - yn anad dim, yr argyfwng costau byw. Rydym wedi gweld angen enfawr yn dod i'r amlwg am gymorth sy'n ymwneud ag anawsterau ariannol ac ynysu cymdeithasol (sy'n debygol o fod yn gysylltiedig â'r canlyniad o gyfyngiadau COVID-19 blaenorol). Yn benodol, rydym wedi gweld prosiectau rhannu bwyd yn dod yn eithaf cyffredin, yn ogystal â 'mannau cynnes' o fewn cymunedau.

Fel bob amser mae GVS wedi bod yma i helpu ein haelodau i ganfod a gwneud cais am gyllid addas i dalu costau eu gwaith hanfodol. Mae ein cefnogaeth wedi cynnwys:

- Cefnogi aelodau unigol gydag ymholiadau sy'n ymwneud ag ariannu
- Trefnu a hwyluso sesiynau 'Cwrdd â'r Cyllidwr' gyda rhai o gyllidwyr mwyaf Cymru
- Chwarae rôl bwysig yn natblygiad a gweithrediad cyfeiriadur cyllido ar-lein Cyllid.cymru
- Hyrwyddo cyfleoedd ariannu pwysig drwy ein gwefan a'n rhestr bostio am ddim

Heb ddiwedd ar yr argyfwng costau byw mewn golwg, bydd GVS yn parhau i chwarae rhan bwysig wrth roi cyngor i'r Sector i sicrhau'r cyllid angenrheidiol i gefnogi pobl sy’n agored i niwed yn ein cymunedau.








# Y gwahaniaeth a wnaethom

## £650,000

Cefnogodd ein Swyddog Cyllid gwerth £650,000 o geisiadau am gyllid yn ystod y flwyddyn

Heb gefnogaeth GVS, byddem wedi cael trafferth bodloni'r meini prawf a nodir ar gyfer Arian Grant. Mae GVS wedi bod yn allweddol wrth ein tywys drwy'r broses gyllido ac mae wedi rhoi mwy o hyder i ni wrth ymgeisio am grantiau, gan wybod bod eu cefnogaeth yno i'n cyfeirio i'r cyfeiriad cywir.

Dave Thomas, RAYNET (Caerdydd a'r Cylch)

Gan weithio gyda Kris, rhoddodd gyswllt i ni gyda'r Loteri Genedlaethol oedd yn golygu ein bod wedi llwyddo i gael grant o £10,000. I fod yn onest, heblaw am ddiffyg amser i mi fy hun, does dim byd wedi teimlo fel her enfawr, ond dim ond oherwydd natur gymwynasgar a charedig Kris a thîm GVS.

Naomi Marshallsea, Coetiroedd Cwm Talwg Woodlands

## 254

Mae gwasanaeth e-fwletin cyllid GVS wedi mynd o nerth i nerth gyda rhestr danysgrifio  o 254 o dderbynwyr

## 6

Helpodd ein Swyddog Cyllid i hwyluso chwe  digwyddiad "Cwrdd â'r Cyllidwr" sy'n cynyddu cyfradd llwyddiant y ceisiadau ariannu

Roedd Kris yn gymorth mawr wrth amlinellu sut a ble y dylem chwilio am grantiau i hyrwyddo a chefnogi gweithgareddau'r côr. Treuliodd lawer o amser yn gweithio drwy bosibiliadau i ni a chynigiodd barhau i'n cefnogi gyda chyngor.

Peter Dickson, St Donats Chorale

# GWASANAETHAU LLYWODRAETHU

Mae llywodraethu da â rhan hanfodol yn llwyddiant a chynaliadwyedd sefydliadau elusennol, grwpiau gwirfoddol a mentrau cymdeithasol. Er bod hyn wedi bod yn wir erioed, mae digwyddiadau'r blynyddoedd diwethaf yn sicr wedi tanlinellu ei bwysigrwydd. Wrth i ni symud allan o gyfyngiadau COVID-19, rydym wedi gweld rhai o'r sefydliadau a sefydlwyd mewn ymateb iddo, heb waith i'w wneud. Gall dirwyn elusen i ben fod yn frawychus ac rydym wedi bod wrth law i gefnogi hyn.

Mae ein gwasanaeth llywodraethu'n darparu cefnogaeth hanfodol i'n haelodau pan fydd ei angen arnynt fwyaf. Rydym yn helpu gyda datblygu polisi, sefydlu grŵp neu elusen, a gydag unrhyw ymholiadau sy'n gysylltiedig â llywodraethu da ar sail un i un. Mae'r gwasanaeth hwn wedi'i gynllunio i ddelio ag achosion cymhleth a all gymryd oriau lawer, ac mae'n rhoi eglurder i'n haelodau i'w harwain trwy sefyllfaoedd a allai fod yn anodd.

Mae ymddangosiad argyfwng newydd - sef yr argyfwng costau byw - wedi arwain at greu ton newydd o brosiectau a sefydliadau sydd wedi'u cynllunio i gefnogi cymunedau. Mae'r sefydliadau newydd hyn wedi elwa ar y gwasanaeth llywodraethu a ddarperir gan GVS, sy'n cynnwys:

- Cefnogaeth uniongyrchol unigol ar unrhyw ymholiad sy'n gysylltiedig â llywodraethu
- Cyngor ar ddewis y strwythur cyfreithiol cywir ar gyfer sefydliad newydd
- Cefnogaeth i ddatblygu a dehongli polisïau
- Canllawiau ar gofrestru elusennau, gan gynnwys ysgrifennu dibenion elusennol a'r ffurflen gais
- Hyfforddiant i ymddiriedolwyr
- Lledaenu diweddariadau a gwybodaeth bwysig sy'n gysylltiedig â llywodraethu sy'n effeithio ar y sector

Mae llywodraethu da yn hyrwyddo atebolrwydd, tryloywder ac arferion moesegol, tra hefyd yn galluogi cynllunio strategol effeithiol a rheoli risg. Mae GVS yn chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi ein haelodau i gyflawni'r nodau hyn ac mae'n parhau i wneud hynny yn unol â'r dirwedd newidiol y mae ein Sector yn ei hwynebu.








# Y gwahaniaeth a wnaethom

## 67

**67 o ymholiadau yn gysylltiedig â llywodraethu drwy gydol y flwyddyn**

Does gennym ni ddim byd ond pethau da i'w dweud am GVS ac yn enwedig Kris Rees. O'r syniad cyntaf o greu cyfansoddiad roedd Kris yno yn trafod yr holl fframwaith cyfreithiol ac yn ein tywys o ran yr hyn a fyddai'n gweddu i'n hanghenion. O sefyllfa anodd a oedd gennym ni, yn ceisio agor cyfrif banc, trafododd Kris yr holl opsiynau ac agorodd gysylltiadau fel y gallem gael cyfweliadau â banciau. Byddwn yn argymell yn llwyr bod unrhyw grŵp cymunedol neu elusen newydd yn defnyddio Gwasanaethau GVS a Kris Rees.

Paul Carr,
Banc Dillad Sain Tathan

Fel grŵp newydd, roeddem eisiau bod yn elusen gofrestredig er mwyn gallu gwneud cais am grantiau yn haws. Roeddem hefyd eisiau sicrhau ein bod yn dilyn protocolau a pholisïau cywir, a sicrhau bod ein rhai ni yn gyfoes. Rhoddodd Kris gyngor i ni ar ddod yn elusen gofrestredig, yn ogystal â'n cefnogi gyda pholisïau. Rydym hanner ffordd trwy wneud cais i fod yn elusen, a fyddai wedi bod yn anodd ac yn teimlo'n anghyraeddadwy heb gefnogaeth Kris yn GVS.

Naomi Marshallsea, Coetiroedd
Cwm Talwg Woodlands

## 41

**Cefnogwyd 41 o wahanol sefydliadau gydag ymholiadau cysylltiedig â llywodraethu**

## 145

**Cafodd 145 o bobl fynediad at ein deunyddiau cymorth Llywodraethu drwy wefan GVS**

Mae GVS wedi bod yn gefnogol iawn i ni wrth sefydlu fel sefydliad newydd yng Nghymru. Maen nhw wedi bod yn allweddol o ran ein helpu i ddeall y Sector Gwirfoddol yn lleol, wedi ein cyfeirio ni fel ein bod yn gwneud cysylltiadau newydd ac yn ymwybodol o hyfforddiant lleol, wedi ein cefnogi i ysgrifennu cais llwyddiannus gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, ac yn fwy diweddar wedi ein helpu gyda materion llywodraethu, gan adolygu ein polisïau a'n gweithdrefnau yn feirniadol. Bob amser yn gyfeillgar, mae GVS yn adnodd gwych ar gyfer sefydliadau fel ni.

Gina Biggs, Rainbow Pooch Pride

# GWASANAETHAU GWIRFODDOLI

Ein rôl yw darparu gwybodaeth ac arweiniad ar bob agwedd ar wirfoddoli ar gyfer gwirfoddolwyr a sefydliadau sy'n recriwtio. Bydd ein staff arbenigol yn cymryd amser i helpu pobl i ddod o hyd i'r cyfleoedd gwirfoddoli cywir i weddu i'w sgiliau, personoliaeth a'u hamgylchiadau. Rydym am i bawb gael profiad gwerth chweil a phleserus o wirfoddoli.

Cyfanswm y gwirfoddolwyr a gefnogwyd gan ein Swyddog Gwirfoddoli ar gyfer 2022-2023 oedd 553 (i fyny o 494 y flwyddyn flaenorol). Mae gwaith ein Cydlynydd Gwirfoddoli wedi mynd o nerth i nerth. Rydym wedi recriwtio 20 o wirfoddolwyr i helpu GVS i ddatblygu'r gerddi o amgylch CF61, a 17 arall i gefnogi Rhannu Bwyd a'n postiadau cyfryngau cymdeithasol.

Yn ystod 2022-23 fe wnaethom ailgyflwyno ein Ffair Wirfoddoli a'n Ffair Wirfoddoli Fawr ar ôl absenoldeb o dros ddwy flynedd oherwydd y pandemig. Ynghyd â'r Wythnos Gwirfoddolwyr yn 2022 pan gynhaliom dri digwyddiad gwirfoddoli yn Llanilltud, Penarth a'r Barri, roedd gennym gyfanswm o 186 o ddarpar wirfoddolwyr.

Ein hystadegau Cyfryngau Cymdeithasol ar gyfer Wythnos Gwirfoddolwyr oedd:
Pobl wedi eu cyrraedd ar Facebook – 11,120, pobl wedi eu cyrraedd drwy ymgyrch Facebook 'y telir amdani' – 3,172 a pobl a gyrhaeddwyd ar Twitter – 1,054.

Rydym wedi mynychu nifer o ddigwyddiadau yn ystod 2022-23:
Digwyddiad Gwirfoddoli Mawr; Digwyddiad Cymunedau Ieuenctid am Waith; Wythnos Addysg Oedolion Bro Morgannwg; Diwrnod Iechyd a Lles Y Weinyddiaeth Amddiffyn Sain Tathan 2022; Diwrnod Hwyl i'r Teulu Dechrau'n Deg; Ffair Dysgu a Chyflogaeth y Fro; Digwyddiad Iechyd a Lles - (a gynhelir gan Pobl); Parc Porthceri; Digwyddiad Llys Crawshay; Digwyddiad Gyrfa Cymru a'r Fforwm Ymgynghorol Cydraddoldeb.

Mae ein Grant dan arweiniad Ieuenctid wedi helpu sefydliadau lleol i ddarparu mwy o gyfleoedd gwirfoddoli ieuenctid ym Mro Morgannwg. Roeddem yn falch o gyflwyno grantiau i bedwar prosiect ieuenctid llwyddiannus gyda chyfanswm o £5,770 wedi'i ddosbarthu.





# Y gwahaniaeth a wnaethom

## 186

Roedd gennym 186 o ddarpar wirfoddolwyr yn mynychu ein digwyddiadau gwirfoddoli drwy gydol y flwyddyn



Roedd Janine yn wych o ran rhoi'r holl argymhellion cywir i mi wrth sicrhau ein bod yn diogelu y cyhoedd wrth gymryd rhan mewn sesiynau gwirfoddoli yn y goedwig. Roedd hi'n deall amgylchiadau ein grwpiau bychain, gan sicrhau ein bod yn cyrraedd safonau sy'n briodol ac hefyd yn rhoi cyngor i mi gan roi polisïau enghreifftiol.

Naomi Marshallsea,
Coetiroedd Cwm Talwg
Woodlands

Mae Janine wedi bod yn wych! Mae mynychu'r digwyddiad gwirfoddoli yn Llanilltud Fawr ym mis Mehefin wedi arwain at recriwtio gwirfoddolwr rhagorol a dibynadwy iawn. Roedd hefyd yn dda gallu cymryd rhan mewn cyfweliad ar gyfer y radio. Rydym hefyd wedi recriwtio o leiaf un gwirfoddolwr arall drwy eich rhwydwaith.

Dot Williams, Cadwraeth
Glöynnod Byw/ Natur Am
Byth!

## 553

Cefnogwyd cyfanswm o 553 o wirfoddolwyr gan ein Swyddog Gwirfoddoli, Janine Richardson ar gyfer 2022-2023





## £5,770

Helpodd ein Grant dan arweiniad Ieuenctid sefydliadau lleol i ddarparu mwy o gyfleoedd gwirfoddoli ieuenctid ym Mro Morgannwg gyda phedwar prosiect ieuenctid llwyddiannus yn derbyn cyfanswm o £5,770

Chwiliodd GVS am gyfleoedd gwaith gwirfoddol ym maes cadwraeth gan fy ngalluogi i wirfoddoli i elusen y gallwn gredu ynddi, a mwynhau gwneud gwahaniaeth go iawn.

Deborah Nicholson

---

Cwrddais â Janine yn Llyfrgell y Barri ac roedd hi'n dda iawn gan fy mharu i gyda sefydliad yr wyf bellach yn gwirfoddoli iddo.

Ruth Isaac

# GWASANAETHAU IECHYD, GOFAL CYMDEITHASOL A LLES

Mae gwaith yr Hwylusydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn canolbwyntio ar wella gwaith partneriaeth rhwng y Trydydd Sector a'r Sector Statudol. Mae hyn yn cynnwys rhannu gwybodaeth, hyrwyddo gwasanaethau, cefnogi integreiddio gwasanaethau, rheoli cronfeydd grant bach a hwyluso Rhwydwaith Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles y Fro yn ogystal â rhwydweithiau eraill.

Mae cyllid ar gyfer y Trydydd Sector yn hanfodol bwysig i gefnogi rhedeg gwasanaethau. Mae'n caniatáu i grwpiau a sefydliadau cymunedol llawr gwlad gefnogi pobl yn y gymuned gyda'r hyn sydd ei angen ar y gymuned.

Mae'r Hwylusydd Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles wedi helpu i gefnogi hyn drwy reoli amrywiol o grantiau'r Trydydd Sector yn ystod y flwyddyn. Mae pum cynllun grant wedi ei drefnu yn ystod y cyfnod hwn:

- Grant Unigrwydd ac Ynysu Cymdeithasol
- Grant Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro
- Grant Ymyriadau Ataliol
- Grant Cyfalaf y Trydydd Sector
- Cynllun Grantiau Bach ar gyfer Adeiladau Cymunedol

Mae'r pum grant yma wedi cefnogi 32 o sefydliadau ac mae cyfanswm o £177,000 wedi cefnogi grwpiau cymunedol yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. Dim ond rhan o'r cymorth y gall GVS ei gynnig i sefydliadau yw dyfarnu'r grantiau hyn ond mae'r rhestr uchod yn canolbwyntio ar ein gwaith ym maes iechyd, gofal cymdeithasol a lles. Roedd y grantiau hyn ar gael oherwydd gwaith partneriaeth rhwng GVS a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro, Llywodraeth Cymru a Chynghorau Caerdydd a Bro Morgannwg.

Mae ein Swyddog Cyswllt Cymunedol (CLO) yn cymryd atgyfeiriadau gan staff iechyd a gofal cymdeithasol gyda phwyslais ar bobl o dan 65 oed. Mae atgyfeiriadau yn canolbwyntio ar bobl ag amrywiaeth o anghenion cymhleth weithiau sy'n debygol o fod angen ystod o gymorth. Mae'r CLO yn gweithredu mewn ffordd sy'n sicrhau bod pobl yn cael yr help sydd ei angen arnynt. Cefnogwyd 120 o ddefnyddwyr gwasanaeth yn ystod y flwyddyn.





# Y gwahaniaeth a wnaethom

## 510

Ychwanegwyd 10 aelod newydd at y Rhwydwaith Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant gan wneud cyfanswm  o 510 o aelodau

Mae'r arian Grant Elusennau Iechyd a dderbyniwyd wedi cael effaith mor gadarnhaol ar ein

helusen fach. Rydym wedi gallu defnyddio'r arian i goncritio'r ardd sydd, ar ôl 20 mlynedd a mwy, yn golygu bod gan bob un o'n myfyrwyr fynediad o'r diwedd i'r ardd i gyd. Diolch yn fawr iawn i bawb gan ValePlus!

Kim McKay, ValePlus (Cymru) a ValePlus Extra

Carole, mae'n gymaint o ryddhad gwybod ei bod allan o'r gadair honno ac y bydd yn cael ei golchi a'I thrin!!! Mae'n anhygoel dy fod wedi sôn bod ei throed yn borffor, oherwydd maen nhw wedi darganfod bod ganddi geulad gwaed!! Felly, da iawn am hynny. Diolch yn fawr am fod yno i bobl ac am bopeth rwyt ti wedi'i wneud i Susan. Rwy'n gwybod faint o bwysau sydd ar bobl wych fel ti gyda'r holl waith gofal cymdeithasol sydd i'w wneud, felly diolch.

Cofion cynnes, Mike

## 120

Cefnogwyd 120 o ddefnyddwyr gwasanaeth gan Carole Jones, Swyddog Cyswllt Cymunedol GVS yn ystod y flwyddyn

Mae Prif Swyddog Gwybodaeth Tŷ Hapus wedi cael cefnogaeth fawr gan GVS dros y blynyddoedd diwethaf.

Eleni maent wedi bod  yn arbennig o gymwynasgar yn dilyn ein cais am y Grant Unigrwydd ac Ynysu Cymdeithasol. Bob  amser ar gael ar gyfer cefnogaeth a bob amser yn ceisio ateb ein cwestiynau os ydynt yn gallu. Diolch.

Tessa Thomas, Ty Hapus CIO

## 59

Atebodd Hwylusydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol GVS, Lani Tucker, 59 o ymholiadau gan bartneriaid statudol a Thrydydd Sector

# CYDWEITHIO A PHARTNERIAETHAU

Mae'r Trydydd Sector yn cael ei ystyried yn bartner pwysig wrth gefnogi gwaith cyrff statudol mewn ystod eang o feysydd, ac mae GVS wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth i ddatblygu a gwella gwasanaethau lleol.

Mae GVS yn parhau i hwyluso cynrychiolaeth y Trydydd Sector mewn gwaith cydgynllunio ffurfiol yn unol â'r Protocol y cytunwyd arno rhwng yr Awdurdod Lleol a'r Trydydd Sector, trwy'r Rhwydwaith Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant, neu drwy'r aelodaeth GVS lawn pan fo hynny'n briodol.

Mae GVS wedi parhau i gynrychioli'r Sector ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (RPB), partneriaethau strategol eraill, ac is-grwpiau priodol, gan sicrhau bod llais y Sector a'r gymuned ehangach yn cael ei glywed ar bob lefel. Yn ogystal â hyn, gyda'r agenda Ail-lunio Gwasanaethau, mae GVS wedi bod yn ymwneud yn helaeth ag ymgynghoriadau a thrafodaethau gyda darparwyr gwasanaethau ynghylch cyfranogiad y Trydydd Sector wrth lunio a darparu gwasanaethau yn y dyfodol.

Mae GVS a sefydliadau trydydd sector eraill wedi bod yn gweithio gyda'r awdurdod lleol i sicrhau bod pobl a chymunedau'n cael eu cynnwys bob cam o'r ffordd. Gweithiodd GVS gyda'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i greu ffilm fer i roi trosolwg o'r gwahaniaeth a wnaeth Cronfa Gofal Integredig (ICF) Llywodraeth Cymru i gymunedau. Mae'r ICF yn canolbwyntio ar atal, ymyrraeth gynnar, gwasanaethau gofal a chymorth integredig a darparu modelau darparu amgen.







# Y gwahaniaeth a wnaethom

Diolch yn fawr iawn am eich cymorth a'ch cefnogaeth wrth gynhyrchu tair ffilm. Mae'r ffilmiau hyn yn dangos sut mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro a GVS yn cydweithio i ddarparu grantiau bach i fuddsoddi mewn cyfalaf. Yn hytrach na chanolbwyntio ar yr eitemau a brynwyd, roeddem am dynnu sylw at y gwahaniaeth cadarnhaol a pharhaus maen nhw wedi'i wneud i bobl.

Crëwyd y Gronfa Gofal Integredig (ICF) gan Lywodraeth Cymru a galluogodd ni i ariannu'r gwaith hwn.

Rydym yn ddiolchgar iawn i bawb a gyfrannodd mor frwdfrydig ac ymgysylltu â ni ar y prosiect hwn. Rydym yn falch iawn o allu rhannu'r ffilmiau, yn wir, fe wnaethom agor cyfarfod diwethaf y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gydag un o'r ffilmiau hyn a chawsom adborth cadarnhaol iawn. Byddwn yn dangos y gweddill mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

Kate Hughes, Uwch Gyfathrebu ac Ymgysylltu Swyddog y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (RPB) Caerdydd a'r Fro

Mae'r gefnogaeth a ddarparwyd gan Carole Jones wedi bod yn ddefnyddiol iawn i fy nefnyddwyr gwasanaeth (cwpl). Bu Carole hefyd yn ymgysylltu â'r gwaith amlasiantaeth mewn ffordd gymwys ac yn cynnal lefel uchel o gyfathrebu a rhannu gwybodaeth berthnasol. Daeth Carole hefyd i gyfarfod adolygu yng nghartref y defnyddwyr gwasanaeth a darparu gwybodaeth a chefnogaeth.

Donwyn Lynch, Gwasanaethau i Oedolion, Bro Morgannwg

Mae gweithio mewn partneriaeth â chydweithwyr GVS wedi bod yn gaffaeliad enfawr i Brosiect Bwyd Llanilltud. Mae'r tîm wedi bod yn gefnogol iawn ac yn hael gyda'u hamser a'u gwybodaeth leol sy'n caniatáu i'r prosiect ffynnu. Mae GVS yn bartneriaid allweddol mewn sawl elfen o Brosiect Bwyd Llanilltud.

Mae gweithio gyda GVS i weinyddu Cynlluniau Grant Cymunedol Llywodraeth Cymru wedi bod yn gaffaeliad gwirioneddol i sicrhau bod grwpiau cymunedol lleol yn gallu manteisio ar gyfleoedd cyllido. Mae'r profiad, yr enw da a'r cysylltiadau sydd gan GVS gyda grwpiau trydydd sector lleol wedi bod yn ased go iawn i sicrhau bod cyllid wedi cael yr effaith fwyaf ledled y Fro.

Joanna Beynon , Cyngor Bro Morgannwg

# GWASANAETHAU GWYBODAETH AC AELODAETH

Mae Gwasanaeth Aelodaeth GVS  yn cynnig cyfle unigryw i sefydliadau ymuno â sefydliad ymbarél sy'n cynnig gwasanaethau hanfodol yn y Trydydd Sector.

Mae GVS yn cynnig Aelodaeth Lawn ac Aelodaeth Gyswllt Am Ddim i'r sefydliadau hynny nad oes angen mynediad arnynt i'n gwasanaethau craidd. Mae ein gwasanaethau craidd yn cynnwys cymorth Cyllid; Cymorth gwirfoddoli; Cymorth Llywodraethu; Gwasanaethau Ymarferol; Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant a Phartneriaeth a Gweithio ar y Cyd. Mae ein haelodaeth wedi mynd o nerth i nerth eleni gyda 771 o sefydliadau'n elwa o'n cefnogaeth.

Mae Gwasanaeth Gwybodaeth GVS yn rhan o adnodd ar y cyd byd-eang sydd wedi'i leoli ar wefan WCVA ynghyd â phob un o'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol yng Nghymru. Mae ein tîm staff bach gwych wedi llwyddo i ymdrin â dros 1,100 o ymholiadau yn ystod y flwyddyn sy'n sail i'r rôl hanfodol y mae GVS yn ei chwarae ym Mro Morgannwg. Roedd yr ymholiadau'n amrywio o sefydliadau sydd angen cymorth i'r cyhoedd sy'n dymuno gwirfoddoli.

Mae ein Gwasanaeth Gwybodaeth yn cyfrannu at gryfhau'r Trydydd Sector lleol trwy gyfathrebu ac arweiniad cadarn. Mae sefydliadau'n parhau i ganmol y gwasanaeth e-fwletin a ddarperir yn effeithlon sy'n cynnig newyddion a gwybodaeth gynhwysfawr mewn fformat croesawgar sy'n hawdd ei ddefnyddio. Mae gan GVS dri e-fwletin allweddol - e-fwletin Iechyd a anfonir yn wythnosol, yr e-fwletin newyddion cyffredinol a anfonir bob pythefnos ac e-fwletin newyddion cyllid a anfonir pan fydd cronfa ddefnyddiol ar gael.

Mae ein cylchgrawn e-Vista a'n Newyddion Cyllid Cynaliadwy a gyhoeddir yn electronig deirgwaith y flwyddyn yn darparu newyddion y Trydydd Sector, gan helpu sefydliadau i gyflwyno eu negeseuon allweddol. Rydym yn cyhoeddi datganiadau i'r wasg yn rheolaidd, 58 ar gyfer eleni, ac mae ein gwefan yn cynnal cyfoeth o wybodaeth, gan gynnwys ein holl newyddion diweddaraf. O ganlyniad uniongyrchol i'n hadran newyddion llawn iawn o'r wefan, cawsom 176,166 o ymweliadau gwefan yn ystod y flwyddyn.








# Y gwahaniaeth a wnaethom

## 1,100

Gwnaeth GVS ymdrin â dros 1,100 o ymholiadau

Mae GVS yn sefydliad sydd "wedi bod yno" pan fo'r hinsawdd wedi bod yn anodd iawn i'r demograffig yr ydym ni'n falch o'i gynrychioli. Mae e-byst rheolaidd sy'n gwneud ein sefydliad yn ymwybodol o grantiau y gallwn gael gafael arnynt i gefnogi ein cymuned yn addysgiadol ond hefyd yn dod â thîm sy'n barod i ateb unrhyw ymholiadau a allai fod gennym yn gyflym. Cawsom groeso cynnes iawn yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn ddiweddar a oedd yn wych!

Nicola Danielsen, Grŵp Cymunedol Gibbonsdown

Mae'r e-fwletinau yn amhrisiadwy i'n helpu i gael y wybodaeth ddiweddaraf am yr ardal leol a materion cenedlaethol p'un a yw hyn yn rhoi gwybod i ni am gyfleoedd ariannu; cyhoeddiadau polisi; gweithio mewn partneriaeth neu ein galluogi i hysbysebu swyddi gwag. Mae'n adnodd mor ddefnyddiol i'w gael ac mae'n golygu y gallwn ni i gyd ddarparu gwell gwasanaethau o ganlyniad! Diolch i chi am y gwaith rydych chi'n ei wneud wrth eu casglu.

Rachel Jones, Marie Curie

## 176,166

Cafodd ein gwefan 176,166 o ymweliadau yn ystod y flwyddyn o ganlyniad uniongyrchol i'r cyfleuster newyddion uchel ei barch y mae'n ei gynnal

## 771

771 o sefydliadau wedi elwa o aelodaeth GVS

Diolch am y wybodaeth hon (cylchgrawn e-Vista GVS a Newyddion Cyllid Cynaliadwy), Mae'n cael ei roi at ei gilydd mor dda ac yn ddefnyddiol iawn i ni yn y gymuned.

Luke Conlon, Dewis Cymunedol a Chynhwysiant

# SESIYNAU HYFFORDDI A BRIFFIO

Yn ystod y flwyddyn, cyflwynwyd 17 o ddigwyddiadau hyfforddi grŵp, a'r cyfan wedi'u hanelu at gynyddu capasiti sefydliadau lleol.

Penderfynodd GVS sicrhau bod ffioedd hyfforddi cyn lleied â phosibl, fel arwydd o barch at y cyfnod ariannol anodd a chynigiwyd hyfforddiant am £10 y pen.

Roedd y cyfleoedd hyfforddi a gynigiwyd yn cynnwys:

- Bod yn ymddiriedolwr
- Recriwtio, Dewis a Rheoli Gwirfoddolwyr
- Cyflwyniad i Ddiogelu Data
- Hanfodion Zoom
- Bod yn Barod i Godi Arian
- Cyflwyniad i Twitter
- Esbonio Cyfranddaliadau Cymunedol

Daeth cyfanswm o 126 o gynrychiolwyr i'r cyrsiau hyfforddi a nododd 100% ohonynt bod yr hyfforddiant naill ai'n dda neu'n rhagorol.

Mae GVS yn darparu cyrsiau hyfforddi TG a chyfryngau cymdeithasol unigol. Parhaodd y rhain drwy gydol 2022-23 a dywedodd pawb a ddaeth iddynt  bod y cyrsiau yn dda neu yn rhagorol.





# Y gwahaniaeth a wnaethom

## 126

Daeth cyfanswm o 126 o gynrychiolwyr i 'r cyrsiau hyfforddi



> Cafodd y sesiwn Bod yn Ymddiriedolwr ei chyflwyno'n glir, cyngor addysgiadol a defnyddiol, yn ddefnyddiol ac yn hawdd ei ddefnyddio.
>
> Rachel Cugnoni, Ymddiriedolaeth Charlotte Aitken

> Adborth ar yr hyfforddiant Recriwtio, Dewis a Rheoli Gwirfoddolwyr
>
> Yr agwedd fwyaf defnyddiol oedd siarad am yr ystod o ffurflenni addasadwy, gallu gofyn cwestiynau i gael rhagor o wybodaeth.
>
> Susan Jones, Tŷ Brynawel

## 17

Darparwyd 17 o ddigwyddiadau hyfforddi grŵp, pob un wedi'i anelu at gynyddu capasiti sefydliadau lleol





## 100%

100% yn nodi bod yr hyfforddiant naill ai'n dda neu'n rhagorol

> Adborth ar yr hyfforddiant Cyflwyniad i'r Cyfryngau Cymdeithasol
>
> I unrhyw un, fel fi, sydd angen hyrwyddo eu sefydliad / grŵp, bydd y sesiwn hon yn arbed llawer o amser i chi. Roedd y cwrs yn ardderchog ac yn cynnwys llawer iawn o wybodaeth.
>
> W Rogers, Llyfrgelloedd Cymunedol Creadigol (Bro Morgannwg)

# GWASANAETHAU YMARFEROL

Mae ein Gwasanaethau Ymarferol wedi bod yn achubiaeth go iawn i sefydliadau sy'n aelodau, gan gynnig gwasanaeth unigryw sy'n canolbwyntio ar ddefnyddwyr sy'n mynd gam ymhellach na dim ond diwallu eu hanghenion.
Mae'r Gwasanaeth yn cwmpasu gwasanaethau argraffu, dylunio, gorffen a benthyca offer, gan wasanaethu'r aelodau mewn modd sydd wedi'i deilwra'n broffesiynol, mewn modd effeithiol ac effeithlon.

Mae Gwasanaeth Argraffu a Dylunio GVS yn llawer mwy na hynny. Mae'r gwasanaeth yn gwbl unigryw a heb ei ail. Mae cwsmeriaid y trydydd sector yn elwa ar gymorth a chyngor wedi'u teilwra am ddim ymhell y tu hwnt i'w disgwyliadau. Mae'r gwasanaeth yn sicrhau bod y cynnyrch terfynol yn werth am arian, gan sicrhau bod y cwsmer yn cael gwasanaeth o ansawdd bob tro. Gellir casglu gwaith wedi'i gwblhau o unrhyw un o'n tri safle GVS yn Llanilltud Fawr, Y Barri neu Benarth sy'n cynnig arbedion i ddefnyddwyr gwasanaeth ar gostau teithio.

Mae'r Gwasanaeth Argraffu yn cynnwys maint A5, A4 ac A3. Gall sefydliadau elwa ar gael eu cylchlythyrau, cofnodion cyfarfodydd, agendâu ac unrhyw beth arall wedi'i argraffu sydd o gymorth i redeg eu sefydliadau'n esmwyth.
Nid dim ond cynnig dylunio taflenni, cylchgronau, tystysgrifau, gwahoddiadau, rhaglenni a chardiau busnes y mae’r Gwasanaeth Dylunio, mae'n cynnig baneri codi, baneri PVC, cyflwyniadau a mwy. Yn ystod chwarter olaf y flwyddyn, bu mwy o geisiadau gan sefydliadau i gael baneri codi a baneri PVC wedi'u dylunio, a chynhyrchwyd tri baner ar gyfer cwsmeriaid diolchgar.

Mae GVS wedi ymgymryd ag 82 o dasgau llungopïo ac argraffu eleni, 56 oedd ffigwr y llynedd sy'n gynnydd o 46% ers y llynedd. Cwblhawyd 34 o dasgau dylunio yn ystod y flwyddyn, ffigwr y llynedd oedd 16 sy'n gynnydd o 114% ac yn dangos poblogrwydd ac effeithiolrwydd gwasanaeth dylunio GVS.

Mae'r Gwasanaeth Gorffen yn cynnwys staplo, plygu, sleisio a lamineiddio sy'n ategu'r Gwasanaethau Dylunio ac Argraffu. Mae'r gwasanaeth benthyca offer am ddim yn cynnwys eitemau fel byrddau arddangos, fframiau siartiau troi, taflunydd digidol a system sain. Gwerthfawrogir y gwasanaeth yn fawr gan ei ddefnyddwyr.







# Y gwahaniaeth a wnaethom

## 82

Mae GVS wedi ymgymryd ag 82 o dasgau llungopïo ac argraffu eleni sy'n gynnydd o 46% ers y llynedd

> Gwasanaeth argraffu effeithlon, prydlon a defnyddiol iawn gan Mark, ac am brisiau rhesymol iawn. Mae gwasanaeth rhagorol GVS wedi lleihau ein costau yn fawr gyda'u gwasanaeth argraffu rhagorol.
>
> Scylla Cumbes U3A Y Bontfaen

---

> Amser cyflawni rhagorol ac ychydig o addasu i'r dyluniad i wella'r canlyniad terfynol.
>
> John Anthony, Clwb Rygbi Y Barri

## 3

Dyluniwyd tri baner ar gyfer sefydliadau yn ystod chwarter olaf y flwyddyn

> Mae Mark Stillman wedi bod yn wych i weithio gydag ef ac mae wedi ein galluogi i gynhyrchu poster, baner, cardiau post a thocynnau ar gyfer ein Gŵyl eleni ac rydym i gyd yn hapus iawn â nhw. Mae wedi bod yn hynod ymatebol yn ei arweiniad a'i gyngor i helpu gyda'r camau dylunio ac rwy'n ddiolchgar iawn i fod wedi gweithio gydag ef.
>
> Ben Tarlton, Gŵyl Gerddoriaeth Siambr Llanilltud Fawr

## 34

Cwblhawyd 34 o dasgau dylunio yn ystod y flwyddyn, sy'n gynnydd o 114% ers y llynedd

> Gwasanaeth gwych gan Mark Stillman ac eraill yn GVS.
>
> Roedd Mark mor barod i helpu ac mor brydlon wrth argraffu taflenni a phosteri ar gyfer ein digwyddiad cymunedol nesaf. A chawsom groeso cynnes iawn gan weddill tîm GVS Llanilltud pan gasglom ein taflenni o Dŷ Illtud. Gwych! Diolch.
>
> David Ambrose, Grŵp Cymunedol y Wig

# TŶ ILLTUD GVS

Mae Tŷ Illtud wedi'i leoli'n ddelfrydol ar Ffordd yr Orsaf, Llanilltud Fawr lle mae’r orsaf drenau, yr orsaf fysiau a digon o barcio gerllaw. Mae gwaith adnewyddu sylweddol wedi'i wneud ar yr adeilad i ddarparu swyddfeydd modern sydd wedi ymgorffori nifer o welliannau hylendid i ddiogelu rhag COVID-19 gan gynnwys toiledau fflysio heb ddefnyddio llaw a chyfleusterau golchi dwylo gan ddefnyddio synhwyrydd. Hefyd ar gael mae cyfleuster cymunedol sy'n darparu cyswllt di-dor â Chanolfan CF61 gerllaw.

Mae'r holl swyddfeydd ar y llawr cyntaf bellach wedi eu prydlesu i denantiaid. Defnyddir yr ystafell gymunedol yn rheolaidd gan nifer o grwpiau a phartneriaethau.

Mae Ganolfan Pobl Hŷn yn Nhŷ Illtud - GVS â chysylltiadau ag Age Connects i gefnogi sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl hŷn ac ar gyfer pobl hŷn sy'n byw yn y Fro Orllewinol gyda chyfle i ddarparu a datblygu gweithgareddau a gwasanaethau arloesol yn yr ardal.

Trwy gydleoli ac integreiddio gwasanaethau ac adnoddau allweddol, darperir gwasanaethau'n ddi-dor.  Nododd cynllun ardal y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol fylchau yn narpariaeth gwasanaethau ac mae'r problemau o gynnig gwasanaethau mewn ardal wledig yn rhannol oherwydd y pellter oddi wrth wasanaethau eraill.

Meithrinfa Fun Foundations - Roedd y feithrinfa sydd yn rhan o Dŷ Illtud yn wag am hyd at bum mlynedd. Mae bellach yn gwbl weithredol gyda darparwr meithrin ac yn cynnig hyd at 32 o leoedd ar unrhyw adeg.

Mae gwirfoddolwyr garddio GVS hefyd wedi cefnogi datblygiad y cwrt allanol fel darpariaeth i denantiaid a staff meithrin.







# Y gwahaniaeth a wnaethom



Lleoliad gwych, cymuned braf o bobl yn gweithio yma, mynediad 24 awr. Mae staff GVS wedi bod yn hynod gyfeillgar a chymwynasgar o’r eiliad y cyrhaeddais.

Tim Hawkins-Ormerod, Hawkins Postproduction Ltd

Mae'r lle cyfan yn hyfryd i weithio ynddo, staff sy’n barod iawn i helpu, mae’n lân ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Rwyf bob amser yn falch o gael cleientiaid yn dod i weld lle rydym yn gweithio. Mae holl staff GVS wedi bod yn hynod o groesawgar a chyfeillgar!

Rhaid sôn yn arbennig am Paul Warren, sydd wedi bod yn wych ers i ni symud i mewn!

Diane King, SoulSpin








# CYFLEUSTER CYMUNEDOL CF61

Eleni ychwanegwyd yr Ystafelloedd Cymunedol yn Nhŷ Illtud at yr hyn yr ydym yn ei gynnig ac fe wnaethom ail-addurno Neuadd Colhuw. Yn ogystal â chynnal ein cleientiaid presennol ac ychwanegu sawl un newydd, cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau a chyfarfodydd untro, cyrsiau tymor byr a rhai cyfleoedd cyffrous i blant ac oedolion.

Roedd y digwyddiadau a gynhaliwyd yn CF61 i blant lleol yn cynnwys rhai a ariannwyd gan fenter Haf o Hwyl Cyngor Bro Morgannwg, gan gynnwys lleoedd am ddim ar sesiynau cyn-ysgol a gynhelir yn fasnachol a sesiynau blasu Taekwondo am ddim. Roedd cyfleoedd eraill yn cynnwys sesiynau crefft gwyliau a Phartïon Disgo a digwyddiad arbennig ar gyfer y Nadolig yn Gymraeg ar gyfer plant cyn oed ysgol, gan Fenter Bro Morgannwg. Cynhaliwyd cwrs Hyfedredd Beicio hefyd o CF61 yn ystod mis Awst, ar gyfer y rhai a oedd wedi colli'r cyfle i wneud hyn drwy'r ysgol oherwydd COVID-19.

Roedd digwyddiadau cymunedol yn cynnwys cyngerdd gan gôr lleol, arddangosfa dros benwythnos o waith gan grŵp Celf a Chrefft a chyfle i'w brynu, a nifer o ddigwyddiadau ar raglen Gŵyl Gelfyddydau Flynyddol newydd Llanilltud. Fe wnaethom hefyd gynnal y Ffair Nadolig Gymunedol, gweithdy creu torchau a dyma oedd lleoliad yr Orymdaith Llusernau flynyddol i nodi troi'r goleuadau Nadolig ymlaen yn Llanilltud Fawr. Roedd CF61 hefyd yn Orsaf Bleidleisio ar gyfer etholiadau lleol Cymru.

Roedd cyfleoedd untro yn yr Ystafelloedd Cymunedol yn cynnwys sesiynau iaith a lleferedd i'r teulu a chyfres o ddigwyddiadau 'Hacathon Busnes' i gefnogi busnesau bach yn y Fro Orllewinol, y ddau yn cael eu cynnal gan adrannau Cyngor Bro Morgannwg. Roedd digwyddiadau eraill a gynhaliwyd gan sefydliadau allanol yn cynnwys 'Sgwrs Hinsawdd', a drefnwyd gan gymuned, cyfarfodydd y Blaid Lafur yng nghanolbarth y Fro, a chyfarfod ar gyfer Fforwm Arfordir y Fro. Roedd digwyddiadau GVS yn ein lleoliadau yn Llanilltud yn cynnwys cyrsiau Cymorth Cyntaf a drefnwyd ar gyfer ein haelodau, Ffair Wirfoddoli, a'n 'Sêl Gist Dan Do' gyntaf erioed y gofynnwyd amdani gan y gymuned.





# Y gwahaniaeth a wnaethom



Neuadd wych, llachar a digon o le. Y staff bob amser yn barod i helpu ac yn galonogol. Mae Llinos bob amser mor gymwynasgar, brwdfrydig ac effeithlon. Does dim byd yn ormod o drafferth. Parcio da hefyd.

Carol Kinson, grŵp
Celf a Chrefft
Llanilltud Fawr

Rydym yn defnyddio'r brif neuadd a'r gegin i gynnal Clwb Ieuenctid Llanilltud Fawr. Mae'r neuadd yn fawr ac mae gennym ddigon o le i gynnal ein gweithgareddau. Mynediad gwych i'r awyr agored drwy'r drws ochr hefyd. Mae'r gegin yn lle braf ac mae'r agoriad yn ei gwneud yn lle gwych i goginio gyda grwpiau mawr. Mae gennym hefyd gwpwrdd y gellir ei gloi i storio ein hadnoddau sydd wedi bod o gymorth mawr.

Kelly Hawkes,
Gwasanaeth Ieuenctid y Fro,
Clwb Ieuenctid Llanilltud Fawr






Mae'r neuadd yn lle gwych i gynnal fy nosbarthiadau Pilates. Mae'n olau ac yn awyrog ac yn lân bob amser. Rwy'n teimlo'n gyfforddus iawn yn dod â fy nghleientiaid i mewn gan fy mod yn gwybod bod y neuadd bob amser yn groesawgar, yn gynnes ac yn gyfeillgar.

Julie Dennis,
Bodyworks with Julie

# FOODSHARE PANTRY

Mae FoodShare yn dal i gael ei gynnal yng Nghanolfan CF61, bob dydd Iau. Gyda "gwastraff" archfarchnadoedd diwedd dydd, bwyd gan Fareshare Cymru, ynghyd â rhoddion lleol, ein nod yw helpu i atal gwastraff bwyd wrth helpu yn ein cymuned leol.

Rydym wedi ymgysylltu â'r Awdurdod Lleol ac Iechyd Cyhoeddus ar Brosiect Loteri, Mwy na Bwyd, i gysylltu â phrosiectau lleol eraill i helpu i ddatblygu ein gwasanaeth a darparu gwasanaethau cyngor a gwybodaeth i'n cymuned. Cynhelir y prosiect Mwy na bwyd ar y trydydd dydd Iau o bob mis, 12.30 – 2.30pm ochr yn ochr â'r Chatty Café. O dan y prosiect hwn a gyllidir mae'r gwaith yn parhau i ddatblygu FoodShare dros dro yn Sain Tathan.

Yn 2022-2023 symudodd FoodShare i 'Fodel Pantri' lle mae ymwelwyr â'r cynllun yn talu £5 am 10 eitem. Mae bwyd diwedd dydd yn dal i fod ar gael yn rhad ac am ddim. Mae'r holl arian a gymerir yn darparu arian i brynu bwyd o ansawdd uwch and yw wedi dyddio ar gyfer yr wythnos ganlynol.

Rhaid diolch i Angela Baker-Earle, a adawodd ym mis Mehefin 2023, am ei hegni a'i brwdfrydedd wrth ddatblygu prosiect FoodShare ymhellach yn ystod y flwyddyn. Cymerodd Nic Osgood yr awenau fel ein Cydlynydd FoodShare ym mis Mehefin 2023.

Y niferoedd a fynychodd FoodShare yn 2022-2023 oedd 2,860 (i fyny o 1,983 yn 2021 -2022). Gall pob ymweliad, ar gyfartaledd, fod o fudd i dri aelod arall o'r teulu neu ffrindiau, gan gael effaith ar gyfanswm o 11,440 o bobl eraill.

Yn ystod 2022-2023 hefyd gwnaethom ddechrau'r gwaith adeiladu i wella'r ystafell a ddefnyddir ar hyn o bryd gan FoodShare.







# Y gwahaniaeth a wnaethom



Gwahaniaeth mawr, ni fyddem yn gallu ei gwneud hi tan diwrnod cyflog heb y gwasanaeth yma. Mae'r staff a'r gwirfoddolwyr yn barod iawn i helpu, yn anfeirniadol ac yn dîm gwych gofalgar iawn!

Viv a Tony

Mae'n helpu yn aruthrol gan ein bod yn bensiynwyr anabl a diabetig. Mae'r staff a'r gwirfoddolwyr yn wych!

Connie

Roeddwn i'n cael trafferth gan fod prisiau wedi cynyddu, mae hwn yn help mawr. Mae'r staff a'r gwirfoddolwyr yn gefnogol iawn, yn gyfeillgar ac yn groesawgar.

Kathy






Mae'n gwneud gwahaniaeth enfawr. Yn anaml iawn y byddaf yn siopa mewn archfarchnadoedd nawr ac rwy'n byw ar yr hyn rwy'n ei gael yma gan fy mod yn ddi-waith ac yn sâl. Mae'r staff a'r gwirfoddolwyr yn barod iawn i helpu, yn gyfeillgar iawn ac rwyf wrth fy modd â nhw!

Bernie

# CYFLEUSTER CYMUNEDOL ST. PAUL

Agorwyd Canolfan Gymunedol St. Paul ar gyfer busnes ym mis Mai 2022. Dyma adeilad cymunedol diweddaraf GVS ac mae'n lle cymunedol sydd ar gael i'w rentu ar gyfer llu o weithgareddau am bris fforddiadwy. Mae'r adeilad yn gwbl hygyrch a chroesawgar. Fel lleoliad, mae'n ddelfrydol ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau cymunedol, cyfarfodydd a chynadleddau, dosbarthiadau ffitrwydd a lles.

Mae'r Ganolfan wedi cynnig amrywiaeth o wahanol ddigwyddiadau yn y gymuned ac mae'r sesiynau rheolaidd yn cynnwys:

- Sesiynau lles
- Ioga
- Karate
- Dosbarthiadau Celfyddydau Perfformio, Cerddoriaeth a Dawns
- Ymarfer Côr
- Gweithgareddau i blant

Mae'r Ganolfan hefyd yn cael ei defnyddio gan eglwys leol ar y Sul. Yn 2022-23, roedd gan y Ganolfan dros 1,000 o weithgareddau.

Mae GVS wedi gosod paneli sain ymhob ystafell yn y Ganolfan i wella'r acwsteg ac o ganlyniad mae'r corau sy'n defnyddio'r cyfleuster yn hynod o falch o ansawdd y sain.

Mae'r adeilad wedi elwa o gelf leol, trwy garedigrwydd Llyfrgelloedd Cymunedol Creadigol (Bro Morgannwg) a delweddau o ardaloedd eiconig Penarth sydd wedi bywiogi'r mannau cymunedol.








# Y gwahaniaeth a wnaethom



Ers mynd i Ganolfan Gymunedol St Paul, mae fy ngrŵp karate wedi tyfu ac mae gallu defnyddio'r neuadd yn anhygoel. Mae'r neuadd yn ddelfrydol ar gyfer fy nghynnwys ar-lein ac rwy'n ei defnyddio bron bob dydd Sadwrn i recordio cynnwys. Mae'r neuadd a'r safle hefyd yn hynod lân ac wedi'u trefnu'n dda sydd yn wych i'n grŵp. Mae'r neuadd yn berffaith ar ein cyfer!

Andrew Kanias,
Ysgol Karate Kansei

Mae'r tîm yn St Paul wedi rhoi help a chefnogaeth aruthrol i ni pryd bynnag yr oedd ei angen arnom. Mae gennym gartref sefydlog gyda'n trefniant reolaidd ac rydym yn gwerthfawrogi'n fawr yr amgylchedd cyfeillgar cynnes. Mae GVS wedi caniatáu i ni arddangos posteri a baner yn rhoi cyhoeddusrwydd i'n grŵp yn ogystal â'n cynnwys ar gyfryngau cyhoeddusrwydd St Paul, ac rydym yn gwerthfawrogi hynny'n fawr ac mae'n fuddiol iawn.

Kath Thorne-Thomas,
Slimming World Penarth





Mae St Paul wedi bod yn lleoliad gwych ar gyfer ein hymarferion wythnosol ers i ni "symud i mewn" ym mis Ionawr. Mae'n hawdd i bawb gael mynediad ato, cyfleusterau modern, acwsteg braf, a chefnogaeth gyfeillgar a phrydlon iawn pryd bynnag y bydd gennym unrhyw ymholiadau.

Rydyn ni'n gobeithio parhau i'w defnyddio am amser hir i ddod!

Benjamin Gait,
Spectrum Singers

# PROSIECTAU GARDDIO CF61 A ST PAUL

**Mae'r prosiect garddio yn CF61 wedi mynd o nerth i nerth gyda gwelyau llysiau newydd sydd â grisiau concrit a rheilen law i hwyluso mynediad. Derbyniodd y prosiect gyllid gan Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro sydd wedi ein helpu I'w gyflawni. Erbyn hyn mae ganddo 10 gwely ychwanegol a'r cynwysyddion plannu yn llawn ffrwythau a llysiau gan gynnwys tomatos, winwns, cennin, ffa, garlleg, tatws, bresych, betys, mintys, mefus a llawer mwy. Mae'r holl gynnyrch a dyfir yn cael ei roi i'r FoodShare Pantry yn CF61.**

**Mae gennym ychydig o ychwanegiadau newydd i'n ardal ar gyfer plant gyda sied newydd i gyfnewid llyfrau, castell gwych ar gyfer trychfilod, bwrdd lefel isel a lindys anhygoel i'w dynnu ar gortyn, y cyfan wedi'i wneud gan ein gwirfoddolwyr gwych.**

**Dechreuodd y gwaith o greu twmpath yn gynharach eleni sydd bellach yn 'rockery' gyda llawer o grug, sy'n rhoi lliw a pherarogl.**

**Rydym wedi gweld cynnydd yn nifer y gwirfoddolwyr dros y misoedd diwethaf ac ar hyn o bryd mae gennym 15. Mae'n grŵp amrywiol o wirfoddolwyr o'r gymuned leol gan gynnwys pobl hŷn, gofalwr di-dâl a'r person y mae'n gofalu amdano a phobl ag anableddau.**

**Dechreuodd y prosiect garddio yn St Paul gyda thri cynhwysydd plannu sy'n gwneud yn dda. Talwyd amdanynt hwythau gan grant Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro. Bydd trelis yn cael ei ychwanegu at ddau o'r cynwysyddion plannu er mwyn gallu gorchuddio rhan o'r wal gyfagos gyda phlanhigion dringo.**





# Y gwahaniaeth a wnaed gan ein gwirfoddolwyr



Mae'r gerddi'n rhywle i blant chwarae mewn lle braf, tawel a hardd ac yn berffaith ar gyfer picnic a dysgu am natur. Mae fy mhlentyn pum mlwydd oed wrth ei fodd yn dod yma gyda mi.

Bethan Cain

Mae'r gerddi wedi newid yn llwyr erbyn hyn, mae'n bleser gweld effaith gadarnhaol ar y darn o dir a diolch i'r holl wirfoddolwyr yn CF61. Mae'n bleser cerdded o gwmpas a gweld y llysiau a'r gwelliannau gwych.

Neil Huish





Mae'n edrych yn hyfryd. Mae'n lle gwych i blant chwarae a mwynhau natur. Mae wedi trawsnewid CF61. Mae'n dda i bobl, yn dda i  natur. Mae'r blodau'n creu llawenydd!!

Mae'n dda ei weld yn cael ei ddefnyddio.

Chris Westoby

# Tîm GVS

## Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

Graham Benfield OBE, Cadeirydd
Conway Hawkins, Dirprwy Gadeirydd
Lynda Wallis, Dirprwy Gadeirydd
Sian Davies
Steve Cox
Chris Economides
Mari Major MBE – ymddeol Tachwedd 2022
Pat Finch BEM – ymddeol Tachwedd 2022
Jodi Winter
Paul Hawkins
Ellis Williams

## Staff

Rachel Connor, Prif Swyddog Gweithredol
Clive Curtis, Rheolwr Gweithredol
Paul Warren, Rheolwr Gweithredol
Linda Greenfield, Swyddog Cyllid
Linda Pritchard, Hwylusydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol – ymddeol Mawrth 2023
Lani Tucker, Hwylusydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Kris Rees, Swyddog Datblygu
Janine Richardson, Swyddog Datblygu
Mark Stillman, Swyddog Marchnata ac Aelodaeth
Ceri Venners, Swyddog Gweinyddol
Cath Haines, Cyd-gysylltydd Gwirfoddolwyr
Llinos Thomas, Swyddog Digwyddiadau
Carole Jones, Swyddog Cydlynu Cymunedol y Fro
Angela Baker-Earle – Cyd-gysylltydd FoodShare

## Gwirfoddolwyr

Wendy Carrie (Gwirfoddolwr Garddio CF61)
Kate Briscoe (Gwirfoddolwr Garddio CF61)
Mark Sapsford (Gwirfoddolwr Garddio CF61)
Ed Robson (Gwirfoddolwr Garddio CF61)
Ros Lewis (Gwirfoddolwr Garddio CF61)
Karen Westcott (Gwirfoddolwr Garddio CF61)
Edwina Clark (Gwirfoddolwr Garddio CF61)
Sue Pattinson (Gwirfoddolwr Garddio CF61)
Nick Clark (Gwirfoddolwr Garddio CF61)
Vicki Walsh (Gwirfoddolwr Garddio CF61)
Ray Scott (Gwirfoddolwr Garddio CF61)
Heather Scott (Gwirfoddolwr Garddio CF61)
Karen Martin (Gwirfoddolwr Garddio CF61)
Teresa Enright (Gwirfoddolwr Garddio CF61)
Dave Southgate (Gwirfoddolwr Garddio CF61)
Jenny Booth (Gwirfoddolwr Garddio St Paul Penarth)
Anne Crowley (Gwirfoddolwr Garddio St Paul Penarth)
Rosemary Taplin (Gwirfoddolwr Garddio St Paul Penarth)
Carys Crandon (Cyfryngau Cymdeithasol)
Jack Pyke (Cyfryngau Cymdeithasol)
Rhian Thomas (Digwyddiadau)
Ford Brazel (Ymateb Cymunedol)
Kathy Preston (Ymateb Cymunedol)
Pam Percy (Gwirfoddolwr FoodShare)
Cathy Mangles (Gwirfoddolwr FoodShare)
Chris Westoby (Gwirfoddolwr FoodShare)
Julie Brown (Gwirfoddolwr FoodShare)
Andy Poulton (Gwirfoddolwr FoodShare)
Ann Kay (Gwirfoddolwr FoodShare)
Althea Summers (Gwirfoddolwr FoodShare)
Christine Mak (Gwirfoddolwr FoodShare)
Ed Robson (Gwirfoddolwr FoodShare)
Tim Bunce (Gwirfoddolwr FoodShare)
Lizzy Bray (Gwirfoddolwr FoodShare)
Martin Connor (Gwirfoddolwr FoodShare)
Teresa Enright (Gwirfoddolwr FoodShare)
Brenda Penny (Gwirfoddolwr FoodShare)
David Paskin (Gwirfoddolwr FoodShare)
Annetta McGrory (Gwirfoddolwr FoodShare)

# RYDYM YN DDIOLCHGAR I'N CYLLIDWYR

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale University Health Board

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

The Moondance Foundation

Vale of Glamorgan
Bro Morgannwg


**Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg (GVS)**

enquiries@gvs.wales www.gvs.wales @GVolServices



Rhif Elusen Gofrestredig 1163193 Cwmni Cyfyngedig gan Warant Rhif 9517850